

Cyflwyniad

Pan fyddwch yn ymddeol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), bydd y Gronfa Bensiwn yn cyfrifo eich buddion safonol; pensiwn blynyddol (a delir bob mis calendr) a lwmp swm awtomatig di-dreth os oeddech yn aelod o'r cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2008.

Os ydych yn aelod ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008, NI fyddwch gyda'r hawl i gael lwmp swm di-dreth awtomatig, ond byddwch yn cael yr opsiwn o **Gymudiad**. (Bydd gennych hefyd yr opsiwn hwn os oes gennych hawl i lwmp swm di-dreth awtomatig).

Beth yw Cymudiad?

Pan fyddwch yn ymddeol, bydd gennych yr opsiwn i drosi hyd at 25% o **Werth Cyfalaf** eich buddion pensiwn i dderbyn lwmp swm di-dreth (yn cynnwys unrhyw lwmp swm di-dreth awtomatig). Am bob £1 o bensiwn y byddwch yn penderfynu rhoi i fyny byddwch yn derbyn £12 o arian parod di-dreth yn ôl, yn amodol ar eich cyfyngiad 25%, a osodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CTHEM).

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw'r opsiwn hwn yn orfodol. Gallwch naill ai ddewis derbyn pensiwn blynyddol llawn neu gallwch ddewis derbyn pensiwn blynyddol is gydag arian parod di-dreth (sy'n golygu lwmp swm uwch os oes gennych eisoes hawl arian parod di-dreth awtomatig). Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi ddewis derbyn yr opsiwn arian parod di-dreth uchaf, gan y gallwch ddewis i dderbyn gwerth yn y canol os ydych yn dymuno.

Beth os yr wyf wedi talu cyfraniad ychwanegol?

Os ydych wedi talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) dan drefniant mewnol y Cynllun, bydd gwerth eich cronfa CGY ar adeg ymddeol yn cael ei ystyried wrth gyfrifo Gwerth Cyfalaf eich buddion pensiwn. Am fwy o wybodaeth am sut mae eich cronfa CGY yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiad hwn, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

Bydd unrhyw bensiwn ychwanegol a brynir drwy drefniant Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY), Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (CRhY) neu 'blynyddoedd ychwanegol' wedi cael ei gynnwys wrth gyfrifo eich buddion safonol.

Sut y cyfrifir 'Gwerth Cyfalaf'?

Cyfrifir Gwerth Cyfalaf eich buddion pensiwn fel a ganlyn:

120 x Pensiwn Blynyddol + 10 x Lwmp Swm Awtomatig (os oes unrhyw) ÷ 7 = Cyfanswm Gwerth Cyfalaf

Cyfanswm Gwerth Cyfalaf x 25% = Uchafswm Lwmp Swm sy'n daladwy o dan CPLIL

Enghraifft

Wrth ymddeol, mae **buddion safonol** Ruth wedi cael eu cyfrifo fel:

Pensiwn Blynyddol: £10,000
Lwmp Swm Awtomatig: £24,000

Mae gan Ruth y dewis i naill ai dderbyn ei buddion safonol (fel uchod) **NEU'R opsiwn uchafswm lwmp swm** (fel y dangosir isod) a'r pensiwn blynyddol sy'n weddill, neu fel arall y gall hi ddewis derbyn **gwerth yn y canol**.

Uchafswm Lwmp Swm: **£51,428.57**
(120 x £10,000 + 10 x £24,000 ÷ 7 = £205,714.28 x 25% = £51,428.57)

Pensiwn Blynyddol sy'n Weddill: **£7,714.29**
(£51,428.57 - £24,000 ÷ 12 = £2,285.71)
(£10,000 - £2,285.71 = £7,714.29)

Pryd byddaf yn ethol i Gymudo?

Bydd y Gronfa Bensiwn yn eich darparu gyda phhecyn ymddeol ar adeg ymddeol, a fydd yn cynnwys eich opsiwn uchafswm lwmp swm. Felly, mae'n rhaid i'ch ethol cael ei wneud cyn bod eich buddion yn dod yn daladwy ac unwaith y byddwch wedi gwneud eich Etholiad **NID YW'N** bosib newid eich meddwl. Fe'ch cyngorir i gysylltu â'r Gronfa Bensiwn os ydych â diddordeb derbyn gwerth yn y canol.

A fydd Pensiwn fy Ngoroeswr yn llai o ganlyniad?

Os ydych yn penderfynu cymudo, **NI** fydd yn lleihau unrhyw Pensiwn Goroeswr dilynol sy'n daladwy i'ch priod, partner sifil cofrestredig neu bartner sy'n cyd-fyw cymmwys, a/neu blant cymwys ar eich marwolaeth.

Nodwch

Ni all y Gronfa Pensiwn roi unrhyw gyngor ariannol i chi, felly dylid ystyried cael Cyngor Ariannol Annibynnol pan fyddwch yn ymddeol er mwyn sicrhau bod y dewis mwyaf priodol yn cael ei gymryd.

Gwybodaeth Bellach

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig ac nid yw'n rhoi unrhyw hawliau statudol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ffôn: **029 2087 2334**

E-bost: **pensiynau@caerdydd.gov.uk**



Cymudiad